

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2)

Cyflwyniad

1. Ar 14 Medi 2020 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor hwn i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) (“yr LCM”), ac i gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 5 Tachwedd 2020. Ystyriodd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 14 Hydref 2020.

Y cefndir

2. Cyflwynwyd y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) (y “Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Medi 2020. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 9 Medi 2020 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Y Bil

3. Diben y Bil hwn yw symud y dyddiad ar gyfer yr ymarfer prisio nesaf ar ardrethi annomestig i 1 Ebrill 2023 ac addasu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r rhestrau ardrethu annomestig arfaethedig o 30 Medi i 31 Rhagfyr y flwyddyn cyn ailbrisio (h.y. 31 Rhagfyr 2022).

4. Cyflwynwyd Bil blaenorol (Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau)) yn Senedd y DU ym mis Mehefin 2019 i ddod â'r dyddiad prisio ymlaen flwyddyn, o 1 Ebrill 2022 i 1 Ebrill 2021. Ym mis Gorffennaf 2018, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyhoeddi y byddai'r ymarfer ailbrisio Ardrethu Annomestig nesaf ar gyfer Cymru yn cael ei ddwyn ymlaen fel hyn, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r dyddiad yn Lloegr. Ystyriodd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil hwnnw ar 3 Gorffennaf 2019, ac **adroddodd** ei fod yn fodlon bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29 ac nid oedd yn gweld dim rheswm dros wrthwynebu bod y Cynulliad ar y pryd yn cytuno i'r Cynnig Cydsyniad



Deddfwriaethol, a gwnaeth hynny ar 9 Gorffennaf 2019. Serch hynny, methodd y Bil pan addoedwyd Senedd y DU ym mis Medi 2019.

5. Ar 18 Mawrth 2020, cyflwynwyd Bil pellach â'r un diben yn Nhŷ'r Arglwyddi. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil hwnnw gerbron Senedd Cymru ar 28 Ebrill 2020, a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ar 8 Gorffennaf 2020.

6. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19, penderfynodd Llywodraeth y DU wedyn i beidio â bwrw ymlaen â'r Bil hwnnw a phenderfynodd symud dyddiad yr ymarfer ailbriso nesaf i 1 Ebrill 2023. Mae angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn gweithredu'r newid hwn.

7. Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 11 Awst 2020 y byddai'r ailbrisiad Ardrethu Annomestig nesaf yng Nghymru yn digwydd ar 1 Ebrill 2023. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwerthoedd eiddo yng Nghymru yn adlewyrchu effaith y pandemig ar amodau economaidd, ac mae'n cyd-fynd â'r dyddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

Cymalau 1(2)(b), 1(3)(b) ac 1(4)

8. Caiff y cylchoedd priso ar gyfer eiddo annomestig eu llywodraethu gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Mae'r Bil yn diwygio Deddf 1988 ac yn gohirio'r ailbrisiad Ardrethu Annomestig o 2022 i 2023 yng Nghymru a Lloegr, ac yn addasu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno rhestrau Ardrethu Annomestig arfaethedig o 30 Medi i 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn yr ailbrisiad:

- Mae cymal 1(2)(b) a chymal 1(3)(b) yn diwygio adran 41(5) ac adran 52(5) o Ddeddf 1988 er mwyn symud y gofyniad i baratoi rhestrau ardrethu drafft yng Nghymru a Lloegr o 30 Medi fan bellaf i 31 Rhagfyr fan bellaf yn y flwyddyn cyn i'r rhestr ardrethu newydd ddod i rym.
- Mae cymal 1(4) yn diwygio adran 54A(4)(b) ac adran 54A(5)(b) o Ddeddf 1988 i ddarparu bod y rhestrau ardrethu nesaf yng Nghymru yn cael eu llunio ar 1 Ebrill 2023 yn hytrach nag 1 Ebrill 2022. Mae'r cyfnod arferol rhwng ailbrisiadau mewn perthynas â rhestrau Cymru yn parhau i fod yn bum mlynedd ar ôl 2023;
- Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi nad yw'r cymalau a ddiwygwyd yn cynnwys dim pwerau gwneud is-ddeddfwriaethol i Weinidogion Cymru. (Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi, er mwyn caniatáu ar gyfer y gwaith sy'n angenrheidiol i asesu pob eiddo a llunio rhestrau newydd a fydd yn gymwys o 1 Ebrill 2023, y bydd angen pennu dyddiad penodedig i Asiantaeth y Swyddfa Briso ei ddefnyddio ar gyfer asesu gwerth pob eiddo annomestig (sef y

Dyddiad Priso Rhagflaenol (AVD)) sef 1 Ebrill 2021, a wneir drwy osod Gorchymyn gerbron y Senedd. Mae'r pŵer galluogi ar gyfer y Gorchymyn hwn wedi'i gynnwys o fewn darpariaeth nas diwygiwyd gan y Bil).

Cymhwysedd deddfwriaethol

9. Mae trethi lleol i ariannu gwariant awdurdodau lleol (er enghraifft y dreth gyngor ac ardrethi annomestig) yn eithriadau i'r materion polisi ariannol, economaidd a chyllidol a gedwir yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (paragraff 15 o Atodlen 7A). Mae hyn yn golygu bod gan y Senedd gymhwysedd i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar bwnc ardrethi busnes.

10. Mae angen cydsyniad oherwydd bod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r graddau eu bod yn cael yr effaith o addasu swyddogaethau swyddogion priso Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n llunio ac yn cadw data'r prisiad.

11. Fodd bynnag, asiantaeth weithredol a noddir gan Gyllid a Thollau EM yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac mae swyddogion priso, fel deiliaid swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus, yn "awdurdod cyhoeddus" o dan baragraff 8(4) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae paragraff 10(1) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu na chaiff darpariaeth mewn Deddf y Senedd ddileu neu addasu (neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ddileu neu addasu) unrhyw swyddogaethau awdurdod cyhoeddus, ac eithrio "awdurdodau Cymreig datganoledig", ac nid yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio na Chyllid a Thollau EM wedi'u rhestru fel awdurdodau Cymreig datganoledig o dan Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

12. Felly, byddai angen cydsyniad Trysorlys EM i newid dyddiad neu amllder ailbrisiadau ardrethu annomestig ac addasu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Rhestrau Ardrethu Annomestig arfaethedig drwy gyfrwng Deddf gan Senedd Cymru.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y DU

13. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod angen cryn waith wrth baratoi rhestrau ardrethu newydd i ddod i rym ar 1 Ebrill 2023 a sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Mae cadarnhau'r dyddiad priso mewn deddfwriaeth yn darparu'r sylfaen statudol ar gyfer y gwaith hwn.

14. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y posibilrwydd o wneud y newid hwn i'r dyddiad drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru, oherwydd nid oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen sy'n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gyflawni'r gwaith priso angenrheidiol. Hefyd, byddai defnyddio Bil Llywodraeth Cymru diweddarach yn arwain at lai o sicrwydd yn y cyfamser i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru.

15. Fel yr amlinellwyd uchod, bydd y Bil a gyflwynir gan Lywodraeth y DU hefyd yn sicrhau bod amseriad yr ailbrisiadau yng Nghymru yn cyd-fynd â'r hyn sydd yn Lloegr, a bod y prisiadau'n cael eu cynnal mewn modd cyson.

Safbwynt y Pwyllgor

16. Fel yn achos y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2019, mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Bil hwn yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i weithredu newidiadau i ailbriso Ardrethu Annomestig. Mae'r Pwyllgor yn derbyn dadl Llywodraeth Cymru bod y Bil cyfredol yn briodol am resymau "amseru a chydlyniant".

17. Roedd y Pwyllgor wedi cefnogi'r cynnig ym Mil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2019 i ddod ag ailbrisiadau ymlaen i 2021. Fodd bynnag, mae'n cydnabod, yng ngoleuni effaith y pandemig Covid-19 ar fusnesau a gwerthoedd eiddo busnes, bod angen adlewyrchu hyn yn yr ailbrisiadau Ardrethu Annomestig, a'i bod hefyd yn parhau i fod yn bwysig cael cyfundrefn Ardrethu Annomestig gydlynol ledled Cymru a Lloegr.

18. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Bil cyfredol yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29, ac nid yw'n gweld dim rheswm dros wrthwynebu bod y Senedd yn cytuno i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm hwn.